

## Polisi Disgresiwn Cyflogwr Cyngor Sir Caerfyrddin

Disgresiynau sydd i'w cyflwyno ar 6 Ebrill 2019

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei bolisi ynghylch Disgresiwn y Cyflogwr o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gallai'r disgresiynau hyn newid, naill ai'n unol ag unrhyw newid yn y rheoliadau neu'n dilyn rhoi ystyriaeth briodol iddynt gan yr Awdurdod. Nid yw'r disgresiynau hyn yn rhoi unrhyw hawliau contractiol.

Yn sgil cyflwyno Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) 2018 ar 14 Mai 2018 daethpwyd â swyddogaethau disgresiynol pellach i awdurdodau cyflogi. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r diweddariad hwn, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol ymgymryd ag adolygiad llawn o'r HOLL ddisgresiynau o dan bob un o reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sydd yn dilyn hynny wedi arwain at yr ymarfer hwn a'r angen am adolygu a diweddaru ein datganiad polisi presennol.

### Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

Polisiau disgresiynol o 1 Ebrill 2014 mewn perthynas ag aelodau actif ar ôl 31 Mawrth 2014 (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr) ac aelodau a adawodd ar ôl 31 Mawrth 2014 (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr).

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
P'un a ddylid cyfrannu at gynllun Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) rhannu cost, faint y dylid ei gyfrannu, ac ym mha amgylchiadau y dylid gwneud hyn.	16(2)(e)* a 16(4)(d)*	Peidio defnyddio'r disgresiwn hwn.
P'un a oes modd talu'r holl fuddion neu rai ohonynt os yw gweithiwr yn lleihau ei oriau neu ei radd (ymddeoliad hyblyg).	30(6)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
A ddylid hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion a delir ar ymddeoliad hyblyg.	30(8)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
P'un a ddylid hepgor, yn gyfan neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion y mae aelod yn eu tynnu'n wirfoddol cyn ei oedran pensiwn arferol heblaw am resymau ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 yn unig).	30(8)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.

P'un a ddylid rhoi pensiwn ychwanegol i aelod gweithredol neu o fewn 6 mis i beidio â bod yn aelod gweithredol am reswm yn ymwneud â dileu swydd neu effeithlonrwydd busnes (hyd at £6,500 y flwyddyn ar 1 Ebrill 2014 - caiff y ffigur hwn ei ddiogelu rhag chwyddiant yn flynyddol).	31*	Peidio defnyddio'r disgrisiwn hwn.
A ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu ar ôl hynny a chyn 60 oed.	60*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.

### Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014

Polisiâu disgrisiynol o 1 Ebrill 2014 mewn perthynas ag aelodau actif ar ôl 31 Mawrth 2014 (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr) ac aelodau a adawodd ar ôl 31 Mawrth 2014 (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr).

Disgrisiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
P'un a oes modd talu'r holl fuddion neu rai ohonynt os yw gweithiwr yn lleihau ei oriau neu ei radd (ymddeoliad hyblyg).	11(2)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
P'un a ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu ar ôl hynny a chyn 60 oed (heblaw am resymau'n ymwneud ag ymddeoliad hyblyg).	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(c)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
P'un a ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu ar ôl hynny a chyn 60 oed.	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(c)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
P'un a ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod, sy'n bensiynwr â buddion gohiriedig, sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu ar ôl hynny a chyn 60 oed.	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac 1(1)(c)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
P'un a ddylid "troi ymlaen" y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu ar ôl hynny a chyn 60	Atodlen 2, paragraff 1(2) ac	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno

oed.	1(1)(f)*	gwasanaethau.
<p>P'un a ddylid hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol cyn oedran pensiwn arferol heblaw am resymau'n ymwneud ag ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac ar ôl 31 Mawrth 2014):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006,</li> <li>b) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, na fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac na fydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol,</li> <li>c) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006 ac y bydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016,</li> <li>d) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, na fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac y bydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.</li> </ul>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1) a 3(1)*</p>	<p>Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.</p>
<p>P'un a ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a weithredir yn achos buddion gohiriedig a delir yn gynnar o dan Reoliad 30 o Reoliadau Buddion, Aelodau a Chyfraniadau 2007 (aelod).</p>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1)*</p>	<p>Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.</p>
<p>P'un a ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a weithredir yn achos buddion a delir yn gynnar o dan Reoliad 30A o Reoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2007 (aelod sy'n bensiynwr â buddion gohiriedig).</p>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1)*</p>	<p>Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.</p>
<p>Hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a weithredir yn achos buddion gohiriedig a delir yn gynnar.</p>	<p>Atodlen 2, paragraff 2(1)*</p>	<p>Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.</p>

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007

Polisiau disgresiynol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun (ac eithrio aelodau sy'n gynghorwyr) y daeth eu haelodaeth weithredol i ben ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 a chyn 1 Ebrill 2014.

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
P'un a ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraid a weithredir yn achos buddion gohiriedig a delir yn gynnar o dan Reoliad 30 (aelod).	30(5)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.
P'un a ddylid hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraid ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol cyn oedran pensiwn arferol heblaw am resymau'n ymwneud ag ymddeoliad hyblyg (lle mae gan yr aelod aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac ar ôl 31 Mawrth 2014): <ul style="list-style-type: none"> <li>a) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006,</li> <li>b) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, na fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac na fydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 ac 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol,</li> <li>c) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006 ac y bydd yn 60 erbyn 31 Mawrth</li> </ul>	30(5)* a 30A(5)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.

2016, d) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw resymau (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, na fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac y bydd yn cyrraedd 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.		
P'un a ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraid a weithredir yn achos buddion a delir yn gynnar o dan Reoliad 30A (aelod sy'n bensiynwr â buddion gohiriedig).	30A(5)*	Ystyried yr holl geisiadau gan roi sylw i'r holl faterion ariannol ac mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau.

### Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd)

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas ag aelodau gweithredol sy'n gynghorwyr yng Nghymru, aelodau sy'n gynghorwyr y daeth eu haelodaeth weithredol i ben ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998, ac unrhyw aelodau eraill o'r cynllun y daeth eu haelodaeth weithredol i ben ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998 a chyn 1 Ebrill 2008.

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
Caniatáu cais am dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn 50 oed neu ar ôl hynny a chyn 55 oed.	31(2)*	Ystyried pob cais.
Hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraid a weithredir yn achos buddion gohiriedig a delir yn gynnar.	31(5)*	Ystyried pob cais.
Gweithwyr sydd wedi eithrio o'r cynllun i gael buddion wedi'u talu o'r Dyddiad Ymddeol Arferol yn unig os yw'r cyflogwr yn cytuno.	31(7A)*	Cymryd camau priodol yng ngoleuni'r amgylchiadau sy'n ymwneud â phob achos.
Caniatáu cais am dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn 50 oed neu ar ôl hynny am resymau tosturiol.	106(1)*	Ystyried pob cais.

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 1997

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun y daeth eu haelodaeth weithredol i ben cyn 1 Ebrill 1998.

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
Caniatáu cais am dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn 50 oed neu ar ôl hynny am resymau tosturiol.	4*	Ystyried pob cais.

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995 (fel y'u diwygiwyd)

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun y daeth eu haelodaeth weithredol i ben cyn 1 Ebrill 1998.

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
Caniatáu cais am dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn 50 oed neu ar ôl hynny am resymau tosturiol.	11(2)(c)*	Ystyried pob cais.

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas â gweithwyr awdurdod cyflogi a ddiffinnir o dan reoliad 2 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'i diwygiwyd).

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
Seilio taliadau dileu swydd ar dâl wythnos wirioneddol lle mae hyn yn fwy na'r terfyn tâl wythnosol statudol.	5*	I fod yn seiliedig ar dâl wythnos wirioneddol.
I ddyfarnu iawndal fel lwmp swm o hyd at 104 wythnos o gyflog mewn achosion o ddileu swyddi, terfynu cyflogaeth am resymau effeithlonrwydd, neu ddod â phenodiad ar y cyd i ben.	6*	Dyfarnu taliadau yn seiliedig ar dablau tâl dileu swydd statudol x 1.5 hyd at fwyafswm o 45 wythnos ac os yn 55 oed neu'n hŷn, rhyddhau buddion a gronnwyd heb eu lleihau.  Am resymau effeithlonrwydd, rhyddhau buddion a gronnwyd heb eu lleihau YN UNIG. Dim taliadau iawndal yn daladwy.

### Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2000 (fel y'u diwygiwyd)

Polisiâu disgresiynol mewn perthynas â chyn-weithwyr awdurdod cyflogi sydd yn gorff rhestredig, yn gorff dynodi, neu'n gorff y bernir ei fod yn gorff rhestredig o dan Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a rheoliadau cyfatebol ei ragflaenydd (ac eithrio cyrff a dderbyniwyd).

Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
Sut i ddsrannu taliad iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol unrhyw briod neu bartner sifil sy'n goroesi lle mae mwy nag un priod neu bartner sifil yn goroesi'r ymadawedig.	21(4)*	Dosrennir ar yr un sail â buddion y prif gynllun.
Sut y bydd yn penderfynu i bwy y telir iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol unrhyw blant lle nad yw pensiwnau'r plant yn daladwy o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gan nad oedd y gweithiwr wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) ac, mewn achos o'r fath, sut y bydd y blynyddoedd ychwanegol blynyddol yn cael eu dosrannu ymhlith y plant cymwys.	25(2)*	Dosrennir ar yr un sail â buddion y prif gynllun.
P'un, mewn perthynas â phriod person y daeth ei gyflogaeth i ben cyn 1 Ebrill	21(7)*	Bydd taliadau iawndal blynyddoedd

<p>1998 a lle mae'r priod neu'r partner sifil yn ailbriodi, yn ymrwymo i bartneriaeth sifil newydd neu'n cyd-fyw ar ôl 1 Ebrill 1998, a ddylid datgymhwysu'r rheolau atal pensiwn arferol h.y. p'un a ddylid parhau i dalu taliadau iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol y priod neu'r partner sifil.</p>		<p>ychwanegol yn parhau i gael eu talu.</p>
<p>Os, o dan y penderfyniad blaenorol, mai polisi'r awdurdod yw gweithredu'r rheolau atal arferol, p'un a ddylid adfer taliad iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol y priod neu'r partner sifil ar ôl diwedd yr ailbriodas, y bartneriaeth sifil newydd neu'r cyd-fyw.</p>	<p>21(5)*</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>P'un, mewn perthynas â phriod neu bartner sifil person y daeth ei gyflogaeth i ben cyn 1 Ebrill 1998 a lle mae'r priod neu'r partner sifil yn ailbriodi neu'n cyd-fyw neu'n ymrwymo i bartneriaeth sifil ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998 gyda pherson arall sydd hefyd yn gymwys i gael taliad iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol priod neu bartner sifil, a ddylid datgymhwysu'r rheol arferol sy'n mynnu bod un ohonynt yn mynd heb daliadau tra pery cyfnod y briodas, y bartneriaeth sifil neu'r cyd-fyw h.y. p'un a ddylid parhau i dalu taliadau iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol y priod neu'r partner sifil i'r ddau ohonynt.</p>	<p>21(7)*</p>	<p>Bydd taliadau iawndal blynyddoedd ychwanegol yn parhau i gael eu talu.</p>
<p>P'un a ddylid lleihau neu atal taliad iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol yr aelod yn ystod unrhyw gyfnod o ailgyflogaeth mewn llywodraeth leol, ac i ba raddau y dylid gwneud hyn.</p>	<p>17*</p>	<p>Dim lleihad mwyach. Mae'n adlewyrchu'r polisi DPF o 1.10.2006.</p>
<p>Sut i leihau taliad iawndal blynyddoedd ychwanegol blynyddol yr aelod wedi i gyfnod o ailgyflogaeth mewn llywodraeth leol ddod i ben.</p>	<p>19*</p>	<p>Dim lleihad mwyach. Mae'n adlewyrchu'r polisi DPF o 1.10.2006.</p>

## Disgresiynau o dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau yn ôl Disgresiwn) (Lwfans Anafiadau) 2011

Mae polisiâu disgresiynol sy'n ymwneud â lwfans anafiadau ond yn berthnasol yn achos pobl a adawodd y cynllun, marwolaethau a lleihad mewn cyflog a ddigwyddodd cyn 16 Ionawr 2012; ac mae'r rhai sy'n ymwneud ag arian rhodd ond yn berthnasol yn achos pobl a adawodd y cynllun a marwolaethau a ddigwyddodd cyn 16 Ionawr 2012.



Disgresiwn y Cyflogwr	Rheoliad	Polisi
P'un a ddylid rhoi lwfans anafiadau yn dilyn lleihad mewn tâl o ganlyniad i ddiodeff anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	3(1)*	Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dewis PEIDIO â gweithredu Lwfans Anafiadau o dan y Rheoliadau uchod.
Swm y lwfans anafiadau yn dilyn lleihad mewn tâl o ganlyniad i ddiodeff anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	3(4) ac 8*	Gweler 3 (1)
Penderfynu p'un a yw person yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn lwfans anafiadau a ddyfernir o dan Reoliad 3(1) (lleihad mewn tâl o ganlyniad i ddiodeff anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd).	3(2)*	Gweler 3 (1)
P'un a ddylid rhoi lwfans anafiadau wedi i gyflogaeth ddod i ben o ganlyniad i analluogrwydd parhaol a achoswyd yn sgil diodeff anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	4(1)*	Gweler 3 (1)
Swm y lwfans anafiadau yn dilyn dod â chyflogaeth i ben o ganlyniad i analluogrwydd parhaol a achoswyd yn sgil diodeff anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	4(3) ac 8*	Gweler 3 (1)
Penderfynu p'un a yw person yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn lwfans anafiadau a ddyfernir o dan Reoliad 4(1) (colli gwaith yn sgil analluogrwydd parhaol).	4(2)*	Gweler 3 (1)
P'un a ddylid atal neu derfynu lwfans anafiadau a ddyfarnwyd o dan Reoliad 4(1) (colli gwaith yn sgil analluogrwydd parhaol) os yw'r person yn cael gwaith cyflogedig am o leiaf 30 awr yr wythnos am gyfnod o 12 mis man lleiaf.	4(5)*	Gweler 3 (1)
P'un a ddylid rhoi lwfans anafiadau yn dilyn dod â chyflogaeth i ben gyda'r hawl i dderbyn pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar unwaith lle'r oedd taliad Rheoliad 3 (lleihad mewn tâl o ganlyniad i ddiodeff anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd) yn cael ei wneud ar ddyddiad dod â'r gyflogaeth i ben ond lle nad yw Rheoliad 4 (colli gwaith yn sgil analluogrwydd parhaol) yn	6(1)*	Gweler 3 (1)

berthnasol.		
Penderfynu ar swm unrhyw lwfans anafiadau sydd i'w dalu o dan Reoliad 6(1) (talu lwfans anafiadau yn dilyn dod â chyflogaeth i ben).	6(1)*	Gweler 3 (1)
Penderfynu p'un a ddylid peidio â thalu lwfans anafiadau sydd yn daladwy o dan Reoliad 6(1) (talu lwfans anafiadau yn dilyn dod â chyflogaeth i ben), a phryd y dylid gwneud hynny.	6(2)*	Gweler 3 (1)
P'un a ddylid rhoi lwfans anafiadau i briod, partner sifil, partner cyd-fyw enwebedig neu ddibynnydd gweithiwr sy'n marw o ganlyniad i ddiodesdef anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd.	7(1)*	Gweler 3 (1)
Penderfynu ar swm unrhyw lwfans anafiadau sydd i'w dalu i'r priod, partner sifil, partner cyd-fyw enwebedig (ar gyfer dyfarniadau a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 mae'r gofyniad i enwebu partner cyd-fyw wedi darfod yn sgil canlyniad achos yr uchel lys Elmes v Essex) neu ddibynnydd gweithiwr o dan reoliad 7(1) (gweithiwr sy'n marw o ganlyniad i ddiodesdef anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd).	7(2) ac 8*	Gweler 3 (1)
Penderfynu p'un a ddylid peidio â thalu lwfans anafiadau sy'n daladwy o dan Reoliad 7(1) (gweithiwr sy'n marw o ganlyniad i ddiodesdef anaf neu ddal clefyd wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd), a phryd y dylid gwneud hynny.	7(3)*	Gweler 3 (1)

Gellir cael golwg ar ddisgresiynau Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Dyfed drwy fynd i'r wefan ganlynol: [www.cronfabensiwndyfed.org.uk](http://www.cronfabensiwndyfed.org.uk). Mae'r rhestr lawn o bolisiau disgresiynol Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd i'w gweld ar y safle hwn.

**Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn unrhyw ffurf arall, cysylltwch â Rheoli Pobl drwy ffonio 01267 246184 neu drwy anfon e-bost at [PMBusinessSupport@sirgar.gov.uk](mailto:PMBusinessSupport@sirgar.gov.uk).**

Datganiad Polisi Cyhoeddedig